Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 7ed Mis Mehefin 2023

**Presennol**
Cynghorwyr - E Davies (Cadeirydd), F Cauley, I Edwards, D Jones, R Ashton, E Lewis, T P Jones, , G Davies, S Evans

**Ymddiheuriadau** - B Jones a G Mitchell (Powys)

Cynigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i pawb

**Cyflwyniadau –** Matthew Whitehead, Fountains Forestry. Rhoddwyd diweddariad ar gwaith tyny coed allan o tir uwchben Blaen y Cwm. Bydd loriau 44 tunell yn cychwyn symud ar y 15fed o Gorffenaf. Byddent yn cadw'n glir o amseroedd y bws ysgol. Gofynodd E Lewis os gallent hefyd rhoi ystyriaeth i pysgotwyr yn trafeilio i Llyn Gwyddior. Mae yna pryder ynglyn a defnydd gilfan newydd ar y ffordd. Fydd amryw o cynrichiolwyr Fountain Forestry yn trafeilio ar hyd y ffordd pob dydd yn cadw llygaid ar cyflwr y ffordd. Bydd Matthew yn cysylltu â'r Clerc os oes unrhyw datblygiadau ac yn cadw mewn cysylltiad gyda'r trigolion sydd yn cael eu effeithio gan y gwaith. Hoffai Matthew dod i cwrdd â'r Cyngor eto mewn cwpwl o fisoedd. S Reast i creu gohebiaeth i'r cyhoedd i helpu dealltwriaeth a disgwyliadau

**Datganiadau diddordeb** - Dim.

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5ed Ebrill a cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a cynhalwyd ar 10fed Mai 2023**
Pawb yn gytun

**Materion yn codi**
1. Treth Busnes i'r Maes Parcio - Cafodd R Ashton trafodaeth gyda ffrind sydd yn twrne, nid oedd ganddi cyngor newydd heblaw am awgrymu bod y Cyngor yn trafod y posibilrwydd o gostwng y pris. Eglurodd y Clerc fod y prîs yn cael ei osod gan fformiwla penodol. Cytunwyd y Clerc i ceisio ysgrifennu un llythyr arall at y VOA
2. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae F Cauley wedi ymweld â'r trigolion gerllaw i wrando ar eu pryderon a'u ddymuniadau. Cytynwyd y fydd y Clwb Garddio yn tacluso'r gwyrddni rhywfaint ac ystyried lleoliad hysbysfwrdd ac efallai bainc yn y dyfodol. Efallai fydd angen cerrig man ychwanegol ar mannau anwastad.
3. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - S Reast yn gwthio am arolygiad coed i symud materion ymlaen.
4. Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair - Cyflwynwyd adroddiad Cambrian Transport Liaison Committee ble nodwyd fod gobaith o diweddariad gan Llywodreath Cymru ar cais Carno yn ystod y mis nesaf.
5. Cyflysterau cyhoeddus - S Reast wedi trafod y 'motion sensors' gyda Becky Rowlands. Cytynwyd nad oes angen goleuadau ymlaen ar flaen yr adeilad trwy'r nôs gan fod yna golau stryd yn y maes parcio. S Reast i gwthio Mark Shelley eto am wneud y gwaith ar un o toiledau'r merched.
6. Hysbysfyrdd - Dim diweddariad
7. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae perchenog y garej yn Bont wedi penderfynnu peidio gwerthu'r safle felly mae'r diffibrilwr yn gallu aros ar y wal yna am y tro. I Edwards i chwilio am costau gosod diffibrilwr yn hen bocs ffôn Tafolwern

8. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae angen swings i babanod yn ogystal a rhai i plant hyn. S Reast i archeb dau ar frys ac i trosglwyddo'r cost i Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt.
9. Cynllyn hyfforddi ac adroddiad blynyddol – Clywyd fod yna problemau technegol wedi bod gyda'r hyfforddiant Cymorth Cynllu.nio Cymru S Reast i trafod yr anfoneb gyda nhw cyn talu. Mae F Cauley am wneud hyfforddiant 'Code of Conduct'
10. Gwrych pob ochr i Tyrpeg yn Nhalerddig – Dim diweddariad. S Reast i holi'r perchenog eto
11. Gwifren BT ar lawr wrth croesfan Bont – Mae'r gwifren wedi cael ei clymu i'r ffens am y tro. Dywedodd G Davies fod yna problem tebyg wrth y Wig
12. Shetyn wrth Pont Bel – Nodwyd yr union man sydd angen sylw ar map i'r Clerc cyflwyno i Network Rail
13. Troi ffordd Pandy yn Bont yn 'un ffordd yn unig' – Cyflwynwyd dyfnbrys am dau arwydd 'Araf / Slow' gan Aztec Print - £40.00 yr un + TAW
14. Golau yn Llan – Mae Cyngor Sir Powys wedi cadarnhau y fydd yna golau newydd yn cael ei osod rhywbryd yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Roedd yna rhywfaint o ddryswch ynglyn a lleoliad penodol y golau. S Reast i holi eto. F Cauley i ofyn am amseru'r golau.
15. Biniau baw cŵn – Cyflwynwyd llythyr gan Cyngor Sir Powys yn dweud na fyddent yn gosod bimniau baw cŵn yn yr ardal. S Reast i ofyn i Clerc Glantwymyn sut y cawsant biniau newydd yn ei ardal nhw
16. Carthion yn yr afonydd – S Reast a G Mitchell wrthi yn cydlynu cyfarfod gyda Dŵr Cymru
17. "Concealed entrance", Maes yr Efail – S Reast i'w drafod gyda'r trigolion gerllaw
18. Ymylon y ffordd yn Bont – Dim diweddariad
19. Tender i torri gwair yn y cae chwarae – Cytynwyd na ddylai 'weed killer' cael ei defnyddio yn y cae chwarae. Mae S Reast wedi trafod gyda'r contractwyr er mwyn sefydlu perthynas da gyda nhw. S Reast i gwthio am prîs rhisgl coed eto
20. **C**yflwyniad Beryl Vaughan, Pwyllgor Cyllid, Eisteddfod yr Urdd 2024 – Cyflwynwyd cyllid sydd yn dangos prinder arian yn y flwyddyn presennol. Cytynwyd i gohirio penderfyniad ynglyn a cyfraniad tan diwedd y flwyddyn i weld faint sydd ar ôl. Rhoddodd E Davies diweddariad ar y digwyddiadau sydd yn cael eu trefnu ar gyfer codi arian
21. Station House, Talerddig – Fydd yna cyfarfod gyda Gwasanaethau Plant ar y safle ar y 1af o Awst am 2.00yp. I Edwards, P Jones, D Jones, S Evans a F Cauley i fod yn bresennol
22. Graffiti ar Pont Brics – Mae Network Rail yn trefnu gwaith glanhau
23. Torri gwair rhwng Wynnstay a'r ffarm – R Ashton i cael gair â perchenog Ffarm Wynstay
24. Twnel helyg yn y cae chwarae angen mwy o rhisgl coed ar lawr – S Reast yn aros am prîs gan Andrew Evans Landscapes
25. Cilyn bach Plas Llwyn Owen ar gornel ffordd Pandy (Bont) – S Reast wedi ysgrifennu i perchnogion yr adeilad yn gofyn am eu sylwadu am diogelwch y llawr sydd yn pydru petai rhywun chwilfrydig yn mynd i mewn
26. Ffens Glandŵr – Dim diweddariad

**Materion ffyrdd**

- Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryncoch – Dim diweddariad. S Reast i holi eto
- Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy – Dylai'r cerrig wedi cael eu symud
- Cyflymder traffig heibio'r ysgol – Cytynwyd y fydd y Clerc yn ysgrifennu at Russel George AS
- Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref – Cytynwyd y fydd y Clerc yn ysgrifennu at Russel George AS
- Coed o flaen Blaen y Cwm – nunlle i dyny mewn – trafodwyd gyda Matthew Whitehead ar cychwyn y cyfarfod. Dydy Cyngor Sir Powys ddim am darparu fwy o cilfannau

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)** – Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan nad oedd G Mitchell yn bresennol

**Gohebiaeth**

- Adroddiad am strategaeth cynllunio gan Cyng. Jake Berriman (CSP)
- Amgylchedd a Natur – Cynghorau Tref a Chymuned Powys ar 14 Mehefin 2023 yn y Pafiliwn, Llandrindod – S Reast a F Cauley yn cymryd rhan

**Cynllunio**

23/0804/REM | Section 73 application to remove condition no. 9 attached to planning approval M/2001/1101 (holiday restriction) | Sawmill Studio Pennant Llanbrynmair Powys SY19 7BL – Cytynwyd i gwrthwynebu'r cais gyda pledlais; P Jones yn cynnig, R Ashton yn eilio gyda 3 pleidlais ychwanegol. D Jones yn cynnig cefnogi'r cais, neb yn eilio. Credwyd fod amodau gwreiddiol y caniatad cynllunio dal i fod yn berthnasol ac mae'r cais i'w newid er mwyn gwerthu yn unig yn bygwth sylfaen y rheolau.

**Cyfriflen a balans ariannol**

Nid oedd diweddariad ar y mantolen gan nad oedd y Clerc wedi derbyn 'statements' gan y banc

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| Dyddiad cytunwyd | Eitem | Cyfanswm | Rhif y cheque | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| 07/06/23 | Gwasanaethau Arfon Hughes | £165.00 | | |
| 07/06/23 | PHS Costau blynyddol | £844.27 | | |
| 07/06/23 | Cyfraniad tuag at SSAFA (Elusen y Lluoedd Arfog) | | | Gwrthodwyd<br>Ar ôl pleidlais 5:3 ac un yn ymatal |
| 07/06/23 | Cymorth Cynllunio Cymru - costau | £115.50 | | S Reast i holi gan nad oedd R Ashton |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hyfforddiant | | | yn gallu cymryd rhan oherwydd problemau technegol |
| 07/06/23 | E.ON Next – trydan - £1145.11 | £52.50 | | S Reast i holi gan fod y costau mor uchel am 6 mis |
| 07/06/23 | Cyflog y Clerc | £368.00 | | |
| 07/06/23 | Treth a NI ar cyflog y Clerc | £92.00 | | |
| 07/06/23 | Canolfan Cymdeithasol Llanbrynmair – cyfraniad tuag at costau | | | Cytynwyd i trosglwyddo'r cais i ymddiriedolaeth y Fferm Wynt |
| 07/06/23 | Gloversure – costau'r we-fan | £42.00 | | |
| 07/06/23 | Canolfan Cymdeithasol Llanbrynmair | Cyfraniad tuag at costau | | Cytynwyd i'w trosglwyddo i Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt |

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- F Cauley – Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty
- F Cauley – 'Weedkiller' o gwmpas pyst arwyddion
- I Edwards – Cyhoeddu cofnodion

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 5ed mis Gorffenaf 2023**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 2ail mis Awst 2023**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair